cymorth cristnogol

Yn un mewn cariad

Taflen weddi

Apêl yr Hydref

Diolch am lawr lwytho'r adnodd hwn i'ch arwain yn eich gweddïau.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys pwyntiau gweddi, y gellir eu defnyddio mewn defosiwn unigol neu mewn cwrdd gweddi cynulleidfaol, yn cynnwys grwpiau ar lein. Hefyd mae gweddïau wedi eu hysgrifennu, fel y gallwn gyd-weddïo gydag un llais, yn un mewn cariad at Dduw ac at ein cymdogion lleol a byd eang.

Pwyntiau i arwain eich gweddïau

Diolchgarwch am gymuned

Dychmygwch y gymuned yr ydych yn byw ynddi, eich stryd, eich cymdogion, eich teulu a chymuned eich eglwys. Myfyriwch am y berthynas fu rhyngoch yn ystod cyfnod rhyfeddol 2020. Diolchwch i Dduw am y cariad a deimlir ac a ddangosir yn eich cymuned yn ystod pandemig y Coronafirws. Diolchwch fod cariad yn gallu ein huno i gyd, er gwaethaf her ein cyfnod.

Galaru dros golled

Nawr, dowch â'r pethau hynny sy'n fwrn ar eich calon ger bron Duw, yn cynnwys unrhyw gonsyrn sydd gennych dros gymunedau ar draws y byd. Cymunedau oedd eisoes yn wynebu heriau trais ac anghydfod, newyn a sychder, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, hyd yn oed cyn i'r Coronafirws ychwanegu at eu trafferthion eleni. Tywalltwch eich consyrn dros y byd a'r galar am y colledion yr ydych yn gwybod amdanynt, i Dduw'r holl gysuron.

Cyffesion

Gyda gostyngeiddrwydd a gonestrwydd, fe dreuliwn amser yn cyffesu'r amserau, boed yn wybyddus neu beidio, pryd na wnaethom garu Duw gyda'n calon, meddwl, enaid a nerth, a phryd na wnaethom bob amser garu ein cymdogion lleol a byd eang fel ni'n hunain.

Cofiwn: 'Wnaeth e ddim delio gyda'n pechodau ni fel roedden ni'n haeddu, na thalu'n ôl i ni am ein holl fethiant ... Mor bell ag ydy'r dwyrain o'r gorllewin, mae wedi symud y gosb am i ni wrthryfela.' Salm 103:10, 12. Diolch a fo i Dduw.

Eiriolaeth

Darllenwch stori Angela

Arferai fferm Angela roi bywoliaeth dda i'w theulu. Ond nawr mae'n wynebu argyfwng. Mae'r hinsawdd sy'n newid yn Nicaragua yn golygu fod ei chnwd coffi yn lleihau pob blwyddyn. Arferai ffermwyr coffi golli dim ond 5% o'r cnwd. Nawr mae'n 30%. Ar yr un pryd, mae prisiau coffi wedi disgyn yn fyd eang. Mae Angela'n bryderus: 'Bydd yn drychineb llwyr ac yn fethiant inni oherwydd fel ffermwyr, trwy dyfu cnydau yr ydym yn goroesi. O ble y daw ein hincwm?'

Ail wlad dlotaf America Ladin yw Nicaragua. Mae hefyd yn un o'r gwledydd a effeithir waethaf gan newid hinsawdd. Mae 80% o'r boblogaeth yn dibynnu ar amaethyddiaeth i oroesi. Mae nifer yn tyfu coffi fel eu prif ffrwd incwm. Wrth i'r argyfwng hinsawdd barhau, mae eu dyfodol yn edrych yn fwyfwy bregus.

Mae coco wedi rhoi gobaith i Angela a'i merched Ariana a Johaira.

Ond mae gobaith. Gyda'ch cefnogaeth, mae cymuned Angela'n dod at ei gilydd fel menter gydweithredol er mwyn rhannu adnoddau a gwybodaeth, ac i warchod bywoliaethau ar frys.

Mae'r fenter wedi ei chefnogi gan bartner lleol Cymorth Cristnogol, Soppexcca. Maent yn helpu cymuned Angela i ddod at ei gilydd gyda gwahanol brosiectau a syniadau, o erddi llysiau ysgol i weithdai rhyw.

Un o'r prif ffyrdd y maent yn helpu'r gymuned i warchod ei bywoliaeth yw trwy symud oddi wrth gynhyrchu coffi tuag at goco hinsawdd-wydn.

'Rwy'n teimlo'n falch o fod yn rhan o'r fenter gydweithredol ac mae gennym y cyfle i rannu gwybodaeth a dysgu oddi wrth ein gilydd,' meddai Angela.

Darllenwch stori Angela'n llawn yma: **caid.org.uk/neighbours**

Gweddïwch dros gymdogion byd eang

Gweddïwch y bydd stori Angela'n ein helpu i gysylltu gyda realiti'r argyfwng hinsawdd sy'n wynebu cymunedau ar draws y byd.

Gweddïwch dros Angela a'i chymuned - a chymunedau tebyg iddi sy'n wynebu argyfwng hinsawdd sy'n newid mewn ffyrdd sy'n dinistrio bywoliaethau a ffyrdd o greu incwm.

Gweddïwch y bydd y byd yn adeiladu'n ôl yn well yn dilyn pandemig y coronafirws, gan alluogi pawb i ffynnu gyda'r gefnogaeth a'r cyfleoedd y maent eu hangen.

Gweddïwch y bydd yr ysbryd cymunedol yn parhau y tu hwnt i'r pandemig ac yn cynnwys ymestyn tuag at ein cymdogion byd eang.

Gweddïwch y bydd cariad Duw yn llenwi calon, meddwl, enaid a nerth pob un ohonom i'r graddau y byddwn yn caru ein cymydog fel ni'n hunain.

Bendith

Canfyddwch fap o'ch cymuned ar lein, gosodwch eich llaw ar y map neu'r sgrin a gweddïwch fendith cariad a heddwch Duw ar bawb sy'n unig, ar y rhai sy'n wynebu penderfyniadau mawr, ar bawb sy'n bryderus am heddiw a'r dyfodol, ar bawb sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Nawr, canfyddwch ddarlun o'r ddaear a gweddïwch yn yr un modd dros bawb ohonom. Gweddïwch fendith ar ein planed hardd, ar y byd y mae Duw yn ei garu cymaint. A bydded ichi wybod bendith cariad a gofal Duw ar eich bywyd ac ym mywyd pawb yr ydach chi'n eu caru.

Gweddïau y gellid eu dweud gyda'ch gilydd

Gweddi dros Nicaragua

Bydded iddo ddod yn fuan
I'r newynog
I'r wylofus
I'r rhai sy'n sychedu am gyfiawnder,
I'r rhai sy wedi disgwyl canrifoedd
am fywyd dynol go iawn.
Rho inni amynedd
I lyfnhau'r ffordd
Y daw dy deyrnas di atom.
Rho inni obaith,
Na wnawn flino
Wrth ei chyhoeddi na gweithio amdani,
Er gwaethaf cymaint o wrthdrawiadau
Bygythiadau a ffaeleddau.
Rho inni weledigaeth glir
Y cawn ar yr awr hon mewn hanes
Weld y gorwel,
A gwybod y ffordd
Y daw dy Deyrnas atom.
Amen.

Bread of Tomorrow: Praying with the World's Poor, golygwyd gan Janet Morley.

Gweddi Apêl yr Hydref

Dduw cariadus.
Tyrd yn awr a gwna ni
yn gymuned fyd eang
yn gofalu am ein gilydd
trwy ymdrech ac argyfwng
yn ymestyn tuag at ddieithriaid
a ddaw yn chwiorydd a brodyr,
yn ein siapio i fod yn gymuned ofalgar
yn cryfhau ein gilydd
yn cyd sefyll
hyd nes i gyfiawnder ddod i bawb.
Yn dy enw di y gweddïwn,
Amen.

Cymorth Cristnogol.

Gweddi dros goffi a chacen

Rhown ddiolch, greawdwr Dduw,

am gyffyrddiad sawl llaw

sy wedi cynaeafu, prosesu,

cludo a chyflenwi'r coffi/te hwn

yn dod â'r arogl o bedwar ban byd

i'n cegin, yn llenwi'r foment hon.

Ac rydym yn ddiolchgar, Fab cariadus,

am y teimlad o gymuned

a chysur a rennir wrth gael

Paned a sgwrs

gyda ffrind a chymydog, ar lein neu mewn person

Yn cysylltu, cefnogi a rhannu'r foment.

Cymerwn foment i oedi, Ysbryd presennol,

gan ddiolch am ein cymdogion byd eang

sy'n rhannu'n breuddwyd am fyd gwell

ble y mae pawb yn gwybod am y llawenydd o berthyn

y diogelwch o gael ein derbyn

a'r llawnder o fywyd cyflawn.

Greawdwr, Mab ac Ysbryd

crea rhyngom ni gwlwm agosrwydd

sy tu hwnt i fanion a chacen

ac yn creu cysylltiad sy'n parhau

yn creu undod go iawn

ac yn newid y byd.

Helpa ni, Arglwydd.

Amen.

Cymorth Cristnogol.

Gweddi'r Arglwydd amgen o Ganolbarth America

Ein Tad

Sy ynom ni yma ar y ddaear

Sanctaidd yw dy enw

Yn y newynog sy'n rhannu eu bara a'u cân,

Deled dy deyrnas,

Gwlad hael ble mae hyder a'r gwir yn teyrnasu.

Bydded inni wneud dy ewyllys

Bod yn awel dyner i'r rhai sy'n chwysu.

Rwyt yn rhoi ein bara beunyddiol inni

Pan lwyddwn i gael ein tir yn ôl

Neu wrth gael cyflog teg.

Maddau inni

Am gadw'n ddistaw yn wyneb anghyfiawnder

Ac am gladdu ein breuddwydion.

Paid gadael inni ddisgyn i'r demtasiwn

O godi'r un arfau â'r gelyn,

Ond gwared ni oddi wrth y drwg sy'n ein daduno.

A byddwn wedi credu mewn dynoliaeth a bywyd

A byddwn wedi adnabod dy deyrnas

Sy'n cael ei hadeiladu byth bythoedd.

Amen.

Gan Cymorth Cristnogol Canolbarth America.

Bellach mae Angela'n arall gyfeirio oddi wrth ffermio coffi fel ei bod yn gallu sicrhau bywoliaeth dda i'w theulu.

Os hoffech dderbyn adnoddau gweddi cyson, cofnodwch eich diddordeb yma **caid.org.uk/pray**

Cewch fwy o wybodaeth am gefnogi eich cymdogion byd eang gyda Cymorth Cristnogol yn **caid.org.uk/neighbours**

cymorth cristnogol

Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni DG 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance. © Cymorth Cristnogol Gorffennaf 2020.
Lluniau: Cymorth Cristnogol J192308